*This document is available in English*

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Pwyllgor Archwilio** |
| Rhif adroddiad | **AC/2017/07/10** |
| Dyddiad | **10/07/17** |
| Swyddog Arweiniol | **Pennaeth Gwasanaethau Archwilio a Chaffael** |
| Swyddog Cyswllt | **Mike Halstead (01492 576210)** |
| Pwnc | **Crynodeb o Weithgarwch Archwilio Mewnol 2016/17 a Chynllun Archwilio Mewnol Drafft 2017/18** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Darparu crynodeb o'r gwaith Archwilio Mewnol ar gyfer 2016/17 a sicrwydd am yr holl system rheolaeth fewnol, gan gynnwys pa mor ddigonol yw'r trefniadau rheoli risg a llywodraethu corfforaethol.

2 Darparu Asesiad Anghenion Archwilio Mewnol a Chynllun Archwilio Mewnol Drafft ar gyfer 2017/18.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

3 Mae'r adroddiad yn nodi bod 45 o ddiwrnodau o waith Archwilio Mewnol wedi cael eu cynnal yn ystod 2016/17 o gymharu â dyraniad o 50 diwrnod a gynlluniwyd; cytunwyd â'r uwch reolwyr na fyddai llawer o fudd ar hyn o bryd o gynnal yr archwiliad o *Gynllun Pensiwn Addasedig Diffoddwyr Tân y System RDS*. Felly, bydd 5 diwrnod archwilio'n cael eu cario drosodd i 2017/18.

4 Mae'r adolygiadau archwilio'n darparu lefel o sicrwydd ynglŷn â pha mor ddigonol yw'r systemau rheolaeth fewnol sy'n bodoli a chafodd 13 o argymhellion eu gwneud i fynd i'r afael â rhai mân wendidau. Mae proses o adolygiadau dilynol yn bodoli er mwyn sicrhau bod yr argymhellion yn cael eu gweithredu o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt.

5 Yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus, lluniwyd cynllun blynyddol seiliedig ar risg ar gyfer 2017/18 mewn ymgynghoriad â'r uwch reolwyr, gan gynyddu'r adnodd archwilio sydd ar gael i 55 diwrnod.

**ARGYMHELLION**

6 Argymhellir bod y Crynodeb o Weithgarwch Archwilio Mewnol 2016/17 yn cael ei nodi a bod yr Asesiad Anghenion a'r Cynllun Archwilio Mewnol Drafft ar gyfer 2017/18 yn cael ei gymeradwyo.

**CEFNDIR**

7 Dan delerau'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, mae gan Awdurdodau Tân gyfrifoldeb statudol i gynnal "system ddigonol ac effeithiol o archwilio mewnol."

8 Mae'r swyddogaeth Archwilio Mewnol yn cael ei chynnal ar ran yr Awdurdod Tân gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, a swyddogaeth arfarnu annibynnol ydyw, ar gyfer adolygu gweithgarwch yr Awdurdod Tân ac Achub fel gwasanaeth, a hynny ar gyfer pob lefel o reolaeth.

9 Mae Rheoliadau Ariannol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (ATAGC) yn nodi y bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno yn enw ATAGC mewn perthynas â'r cynllun archwilio am y flwyddyn ariannol sydd i ddod, ynghyd ag adroddiad ynghylch perfformiad o gymharu â'r cynllun gwreiddiol ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol.

10 Y Prif Swyddog Tân a darparwyr yr archwiliad mewnol sy'n gyfrifol am bennu cynnwys y cynllun archwilio. Dylid llunio'r cynllun mewn ymgynghoriad â'r Archwilydd Allanol.

**GWYBODAETH**

11 Gellir rhannu'r gwaith archwilio mewnol yn fras yn bedwar categori:

(a) **Archwiliadau Rheoleidd-dra,** - sydd wedi eu cynllunio i sicrhau:-

- Bod yr holl incwm sy'n ddyledus i ATAGC yn cael ei gasglu, ei dderbyn, ei ddiogelu, ei fancio a'i gofnodi'n gywir.
- Bod yr holl daliadau'n cael eu hawdurdodi'n gywir, o fewn y gyllideb ac yn unol â Rheolau Sefydlog a Rheoliadau Ariannol ATAGC.
- Bod yr holl staff wedi cael eu penodi'n gywir, ac yn cael eu talu yn unol â thelerau ac amodau eu penodiad.
- Y ceir gwerth am arian am nwyddau a gwasanaethau a brynir.
- Bod eiddo ac asedau eraill yn cael eu cofnodi a'u diogelu'n gywir.

(b) **Archwiliadau o Systemau,** - wedi eu cynllunio i sicrhau bod yr holl systemau a gweithdrefnau sydd ar waith yn cynnwys rheolaethau digonol o'u mewn, a hynny er mwyn atal twyll ariannol neu anghysondebau arall, e.e. dylai o leiaf dau o bobl fod yn ymwneud â phob trafodyn.

(c) **Archwiliad o Dechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu.** Defnyddir hyn i brofi cyfanrwydd y systemau cyfrifiadurol, a hefyd, trwy ymholi systemau cyfrifiadurol fel cymorth i ganfod twyll ariannol ac anghysondebau.

(d) **Archwiliad o Gontractau** sy'n cynnwys arfarniad ariannol o ddarpar-gontractwyr, ymchwiliad i'r rheolaethau sydd ar waith er mwyn sicrhau cydymffurfiad â'r Rheolau Sefydlog Contractau, ac ymchwiliad i sampl o'r contractau cyfredol a'r rhai a gwblhawyd, gan gynnwys gwirio'r cyfrifon terfynol.

12 Caiff adroddiad ei lunio yn dilyn pob archwiliad mewnol, a bydd yn:-

- Datgan diben, cwmpas, darganfyddiadau a chasgliadau'r archwiliad.
- Gwneud argymhellion er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw wendidau a nodir.
- Cynnwys cynllun gweithredu i fonitro a chynorthwyo wrth weithredu'r argymhellion.
- Darparu camau dilynol i'w cymryd o fewn cyfnod rhesymol wedi cyhoeddi'r adroddiad terfynol.

**Adolygiad o Weithgarwch 2016/17**

13 Yn ystod 2016/17, darparwyd 45 o ddiwrnodau archwilio, o gymharu â dyraniad o 50 diwrnod fel y nodwyd yn y cynllun archwilio statudol. Ni chynhaliwyd yr archwiliad ar Gynllun Pensiwn Addasedig Diffoddwyr Tân y System RDS yn ystod y flwyddyn; gan mai yn 2015 y rhoddwyd y Cynllun ar waith a gan fod yr archwiliad ar Bensiynau (Ansawdd Data) yn 2016/17 wedi adolygu agweddau ar weithrediad y Cynllun, cytunwyd â Phennaeth Cyllid yr Awdurdod mai bach oedd y risg i'r Awdurdod ac na fyddai llawer o fudd o ganlyniad i wneud gwaith pellach yn y maes hwn. Cytunwyd â'r Dirprwy Brif Swyddog Tân y bydd 5 diwrnod archwilio yn cael eu cario drosodd i 2017/18, gan gynyddu'r adnodd archwilio yn 2017/18 i 55 diwrnod.

14 Mae'r archwiliad Diogelwch Seiber a gynlluniwyd ar gyfer 2016/17 wrthi'n mynd rhagddo; roedd Uwch Archwilydd Conwy (Technoleg Gwybodaeth) ar gyfnod o salwch tymor hir yn ystod Mawrth ac Ebrill 2017, ac arweiniodd hynny at oedi wrth gwblhau'r archwiliad. Bydd canlyniadau'r archwiliadau o Ddiogelwch Seiber yn cael ei adrodd i'r cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Archwilio ym mis Medi 2017.

15 Cafodd tri archwiliad naill ai eu cwblhau yn ystod y flwyddyn neu maent yn mynd ymlaen, ac maent yn ymdrin â'r canlynol:

- **Pensiynau (Ansawdd Data)** - Cynhaliwyd adolygiad ar gywirdeb a chyflawnder data pensiynau'r Diffoddwyr Tân.

- **Rheoli Presenoldeb** – Cynhaliwyd adolygiad er mwyn sicrhau bod presenoldeb yn cael ei reoli yn unol â pholisi clir sy'n cael ei gyfathrebu'n dda, bod perfformiad yn cael ei fonitro a'i adrodd, a bod absenoldeb salwch tymor byr a thymor byr yn cael ei reoli'n briodol a chyson a bod archwiliadau meddygol rheolaidd,

adolygiadau ffitrwydd iechyd, ymddeoliadau ar sail afiechyd a dyletswyddau addasedig yn cael eu rheoli yn unol â'r polisi.

- **Diogelwch Seiber** – Cynhaliwyd adolygiad i ddarparu asesiad annibynnol i'r rheolwyr ynglŷn â pha mor effeithiolrwydd yw'r prosesau, polisïau, gweithdrefnau a gweithgareddau llywodraethu o ran atal troseddau seiber, eu canfod a rheoli digwyddiadau.

16 Yn Atodiad A, ceir rhestr yn nodi barn yr archwiliad o ba mor ddigonol ac effeithiol yw'r prosesau rheolaeth fewnol, a chrynodeb o'r negeseuon allweddol o ran yr holl aseiniadau archwilio a gynhaliwyd yn ystod 2016/17. Mae canlyniad pob archwiliad a gwerthusiad o ddigonolrwydd yr amgylchedd rheolaeth fewnol yn seiliedig ar nifer yr argymhellion a'u graddiad risg. Mae'n amlwg fod yr archwiliadau, yn gyffredinol, wedi cael eu hasesu fel rhai'n darparu lefelau cadarnhaol o sicrwydd bod y rheolaethau ariannol yn gweithredu'n effeithiol a bod y risgiau'n cael eu rheoli'n briodol.

17 Er mwyn mynd i'r afael â'r gwendidau a nodwyd yn ystod yr adolygiadau archwilio, gwnaed 13 o argymhellion.

18 Cafodd cynlluniau gweithredu, yn nodi'r ymateb y cytunwyd arno, eu cyhoeddi gydag adroddiadau'r archwiliadau, a daeth y rhain yn ôl gan reolwyr yr Awdurdod Tân ac Achub, ynghyd â'r camau i'w cymryd er mwyn sicrhau bod yr argymhellion yn cael eu gweithredu. Mae'r rheolwyr wedi cytuno i roi holl argymhellion yr archwiliad ar waith.

19 Er mwyn cydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol CIPFA ar gyfer Sector Cyhoeddus 2013 gweithredir proses ddilynol ffurfiol o fewn yr Adran i gadarnhau bod yr argymhellion a wnaed yn yr adroddiadau Archwilio Mewnol wedi cael eu gweithredu gan Reolwyr o fewn yr amser a gytunwyd. Fel arfer, cynhelir adolygiad mewnol chwe mis wedi cyhoeddi'r adroddiad terfynol. Yn Atodiad B, ceir amserlen o'r archwiliadau dilynol a wnaed yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2016 hyd at 31 Mawrth 2017. Mae'n dangos nifer yr argymhellion a dderbyniwyd ac o ganlyniad a weithredwyd gan y rheolwyr ymhob maes ac mae hefyd yn datgelu'r newidiadau sydd wedi effeithio ar farn wreiddiol yr archwiliad. Gwneir gwaith dilynol pellach yn y meysydd lle mae nifer sylweddol o argymhellion heb gael eu gweithredu.

20 Mae crynodeb o'r gweithgarwch archwilio wedi ei atodi yn Atodiad C, ac mae'n dangos yr hyn a gynlluniwyd i ddyrannu adnoddau archwilio o ran diwrnodau gweithio mewn adrannau a gwasanaethau, a chymharu'r gwaith gwirioneddol a wnaed yn 2016/17 gyda'r cynllun. Mae'n amlwg nad oedd yr archwiliad o Gynllun Pensiwn Addasedig Diffoddwyr Tân y System RDS wedi cael ei gynnal yn ystod y flwyddyn; gan mai yn 2015 y rhoddwyd y Cynllun ar waith a gan fod yr archwiliad ar Bensiynau (Ansawdd Data) yn 2016/17 wedi adolygu agweddau ar

weithrediad y Cynllun, cytunwyd â Phennaeth Cyllid yr Awdurdod mai bach oedd y risg i'r Awdurdod ac na fyddai llawer o fudd o ganlyniad i wneud gwaith pellach yn y maes hwn.

**Barn yr Archwiliad**

21 Yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod 2016/17, boddhaol yw barn yr archwiliad mewnol o'r systemau rheolaeth fewnol a sefydlwyd gan y rheolwyr er mwyn rheoli'n effeithiol y risgiau a ganfuwyd.

**Asesiad o Anghenion a Chynllun Archwilio Drafft ar gyfer 2017/18**

22 Mae'r Cynllun Archwilio Drafft ar gyfer 2016/17 ynghlwm yn Atodiad D; mae'r adnodd archwilio sydd ar gael wedi cael ei gynyddu i 55 diwrnod gan fod 5 wedi cael eu cario drosodd o 2016/17. Pwrpas y cynllun archwilio blynyddol yw:-

- sefydlu blaenoriaethau archwilio ar y cyd â Rheolwyr yr Awdurdod Tân ac Achub, yn seiliedig ar ddull sy'n seiliedig ar risg i bennu anghenion archwilio'r Awdurdod ar ddechrau pob blwyddyn.
- pennu'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r dyletswyddau angenrheidiol o ran archwilio.
- ffurfioli tasgau archwilio.
- adolygu'r gwaith archwilio a wnaed yn y flwyddyn flaenorol.

23 Fel arweiniad yn unig y bwriedir y cynllun archwilio. Gallai newidiadau mewn amgylchiadau, neu ddigwyddiadau eraill na ragwelir, arwain at wyriadau i'r cynllun. Lluniwyd y cynllun ar gyfer 2017/18 yn dilyn ymgynghoriad gyda Rheolwyr yr Awdurdod Tân ac Achub. Mae'r cynllun hefyd yn cynnwys amser i olrhain argymhellion o archwiliadau blaenorol.

24 Mae'r Asesiad o Anghenion Archwilio Mewnol ynghlwm yn Atodiad E. Mae'r Asesiad, sy'n ymgorffori dadansoddiad risg, wedi ei gynllunio i ymdrin â phob agwedd archwiliadwy o weithgarwch ATAGC a chaiff ei ddefnyddio, mewn ymgynghoriad â'r rheolwyr, i hwyluso dull yn seiliedig ar risg i bennu anghenion archwilio'r Awdurdod ar ddechrau pob blwyddyn.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae’r adroddiad hwn yn cysylltu ag amcan llesiant tymor hir ATAGC, sef “Hwyluso gwasanaethau tân ac achub sydd o ansawdd uchel, yn ymatebol ac wedi’u hintegreiddio’n well fel bod gweithgareddau ataliol ac ymateb brys yn gallu parhau i fod ar gael pryd a lle mae eu hangen, a hynny’n fforddiadwy, yn deg ac ar sail risg.” |
| Cyllideb | Amh. |
| Cyfreithiol | Amh. |
| Staffio | Amh. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Amh. |
| Risgiau | Efallai nad yw systemau’r Awdurdod ar gyfer rheolaeth fewnol, rheoli risg a threfniadau llywodraethu corfforol yn gweithredu’n effeithiol er mwyn sicrhau bod amcanion yn cael eu cyflawni. |

AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU **ATODIAD A**

## Adain Archwilio Mewnol – Crynodeb Blynyddol o Argymhellion a Barn Archwiliad 2016/17

| | Maes Archwiliadau | Canfyddiadau a Negeseuon Allweddol yr Archwiliad | Critigol | Mawr | Cymedrol | Mân | Cyfanswm | Cytun-wyd gan y Rheolwyr | Barn yr Archwiliad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | **Rheoli Presenoldeb** | Mae gan y Gwasanaeth bolisi rheoli presenoldeb sy'n glir ac yn cael ei gyfathrebu'n dda, a'r dyddiad cyhoeddi oedd Ebrill 2014 (SAPPO Adran 7 Gorchymyn 4). Daeth *Polisi Rheoli Presenoldeb* diwygiedig i rym ym mis Gorffennaf 2016, gan wneud nifer o ddiwygiadau i'r polisi gwreiddiol, yn bennaf oherwydd newidiadau yn y ddeddfwriaethol. Fodd bynnag, canfuwyd nad yw'r Polisi wedi cael ei gymeradwyo gan y Grŵp Gweithredol eto.<br><br>Cadarnhawyd bod Adnoddau Dynol yn olrhain lefelau salwch ymhob rhan o'r Gwasanaeth; mae'n cael ei fonitro yn ôl salwch tymor byr a thymor hir, yn ôl grwpiau galwedigaethol, yn ôl achosion y salwch a'r gost yn gyffredinol. Mae adroddiadau manwl ar absenoldeb salwch yn cael eu darparu i gyfarfodydd y Panel Rheoli Iechyd ac Ardaloedd bob 6 wythnos, ac mae adroddiadau Trosolwg yn cael eu llunio ar gyfer y Grŵp Gweithredol. Fodd bynnag, nid yw'r Gwasanaeth yn dechrau pob blwyddyn drwy osod amcangyfrifon / targedau ar gyfer absenoldebau salwch ar gyfer pob grŵp galwedigaethol er mwyn gallu mesur a gwella perfformiad; dylai'r targed perfformiad a'r data gwirioneddol gael eu hadrodd i'r uwch reolwyr a'r Aelodau.<br><br>Cadarnhawyd mai'r sefyllfa o ran absenoldeb salwch tymor byr yw ei fod yn cael ei reoli'n gyffredinol yn unol â'r Polisi; mae Ystafell Reoli'r Gwasanaeth yn cael ei hysbysu'n brydlon am absenoldeb ac mae ffurflen Absenoldeb Salwch yn cael ei hanfon ar e-bost i Adnoddau Dynol a'r rheolwyr llinell, os bydd y gweithiwr yn dal yn absennol ar yr 8fed dydd, mae'r gweithiwr wedi cael tystysgrif feddygol gan ei Feddyg Teulu ac mae tystysgrifau meddygol yn rhedeg yn barhaus am holl gyfnod yr absenoldeb. Cafodd yr Ystafell Reoli wybod pryd roedd y gweithiwr yn bwriadu dychwelyd i'r gwaith, cafodd *ffurflen ffit* ei llenwi'n brydlon a chafodd cyfweliad 'dychwelyd i'r gwaith' ei drefnu gan gofnodi'r canlyniadau ar ffurflen Hunan-ardystiad (Rhannau B ac C). Rhaid i'r holl waith papur am yr absenoldeb salwch gyrraedd Adnoddau Dynol cyn pen 10 diwrnod, a chadarnhawyd bod Uwch Ymgynghorwyr AD yn monitro'r modd y mae tystysgrifau meddygol a ffurflenni hunan-ardystiad yn cael eu cyflwyno'n brydlon ac maent yn atgoffa rheolwyr gwylfa i gyflwyno gwaith papur yn brydlon. Fodd bynnag, bu achos lle roedd tystysgrif feddygol wedi cyrraedd yn hwyr a bod oedi mawr, rhwng 10 diwrnod a 2 fis, cyn derbyn ffurflenni hunan-ardystiad gan | 0 | 0 | 2 | 2 | 4 | 4 | **Boddhaol** |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Orsafoedd, a hynny yn y rhan fwyaf o’r achosion a adolygwyd.<br><br>Mae’r Gwasanaeth wedi penderfynu ar drothwy drwy gyfrifo presenoldeb gweithiwr drwy weithredu ‘pwyntiau sbardun’ penodol i reoli presenoldeb. Cydnabyddir bod amgylchiadau unigol yn cael eu cymryd i ystyriaeth, mae rhinweddau pob achos yn wahanol a gwneir addasiadau mewn achosion pan fo gweithiwr yn dod o fewn y Ddeddf Cydraddoldeb. Fodd bynnag, canfuwyd achosion o beidio â chydymffurfio â’r polisi; fe wnaeth dau weithiwr gyrraedd ‘pwynt sbardun 1’ ac er bod AD wedi eu hatgoffa, nid oedd y Rheolwr Gwylfa cyfrifol wedi darparu unrhyw waith papur i gofnodi a gymerwyd unrhyw gamau gweithredu. Hefyd, er bod gweithiwr wedi cyrraedd ‘pwynt sbardun 4’, nid oedd unrhyw waith papur ar ffeil i gofnodi’r cyfarfodydd a gynhaliwyd a beth oedd y canlyniadau. Ystyrir y byddai rheolwyr gwylfa’n elwa ar ragor o hyfforddiant ar ddefnyddio ‘pwyntiau sbardun’ i reoli absenoldeb salwch ac am yr angen i lenwi gwaith papur yn gywir a’u hanfon i AD yn brydlon.<br><br>Cadarnhawyd mai’r sefyllfa o ran absenoldeb tymor hir, sef pan fo gweithiwr yn absennol o’r gwaith am fwy na 28 diwrnod, oedd eu bod cael eu cyfeirio at Iechyd Galwedigaethol, cafodd adroddiad Meddyg ei gyflwyno i AD yn brydlon, ac ystyrir bod yr achos wedi cael ei ystyried yn briodol gan y Panel Rheoli Iechyd.<br><br>Cadarnhawyd bod archwiliadau meddygol yn cael eu cynnal bob 3 blynedd ar rai dan 50 a phob blwyddyn ar rai dros 50 oed (mae’r polisi newydd ar Rheoli Presenoldeb wedi diwygio’r angen am archwiliadau meddygol blynyddol ar rai dros 60 oed); mae pentwr o apwyntiadau iechyd galwedigaethol yn weddill, sef rhai a oedd i fod i gael eu cynnal yn y 3 neu 4 mis diwethaf (yn bennaf oherwydd recriwtio i’r system RDS, archwiliadau meddygol asbestos a newidiadau i’r polisi archwiliadau meddygol bob 3 blynedd hyd at 60 oed). Fodd bynnag, mae’r Cynorthwyydd Rheoli Presenoldeb yn monitro’r sefyllfa ac yn sicrhau bod apwyntiadau’n cael eu trefnu cyn diwedd y flwyddyn. Cadarnhawyd bod cofnod yn cael ei gadw o’r gweithwyr sy’n cael eu hasesu fel rhai *Anffit ar gyfer Dyletswydd* a chadarnhawyd bod yr achosion hyn yn cael eu trin yn briodol. Er mwyn sicrhau bod gweithwyr Gweithredol yn cadw at y safonau corfforol angenrheidiol ar gyfer cyflawni eu dyletswyddau’n ddiogel ac effeithiol, mae’n ofynnol i bob gweithiwr sydd ag ymrwymiad gweithredol gael asesiadau iechyd a ffitrwydd rheolaidd, gan ddibynnu ar y math o swydd sydd ganddynt. Mae SAPPO Adran 7 Gorchymyn 34 *Gweithdrefn Iechyd a Ffitrwydd* yn darparu canllaw manwl ac mae’r Ymgynghorydd AD a Ffitrwydd yn cadw cofnodion cynhwysfawr o’r archwiliadau iechyd a ffitrwydd sy’n cael eu cynnal ac o’r archwiliadau sy’n hwyr.<br><br>Canfuwyd bod 6 gweithiwr wedi ymddeol ar sail afiechyd yn ystod 2015/16; cafwyd barn ysgrifenedig ymarferwr meddygol cymwysedig | | | | | | | |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | ac annibynnol ymhob achos, a chymeradwywyd yr ymddeoliad gan y Panel Rheoli Iechyd. O ran gweithiwr a roddwyd ar ddyletswyddau wedi'u haddasu, cadarnhawyd mai yn ôl cyngor meddyg iechyd galwedigaethol yr oedd hynny, cafodd taflen wybodaeth dyletswyddau addasedig ac asesiad risg eu cwblhau, a chafodd yr achos ei adolygu gan y Panel Rheoli Iechyd. Cadarnhawyd bod gweithwyr nad ydynt wedi cael unrhyw absenoldeb mewn cyfnod o 12 mis yn cael 1 diwrnod o wyliau yn ychwanegol, ar yr amod fod cais yn cael ei wneud o fewn 3 mis i'r dyddiad cymwys; mae cofrestr yn cael ei chadw o'r ceisiadau a chanfuwyd bod 18 o geisiadau wedi cael eu gwrthod yn briodol yn 2015 oherwydd bod y gweithiwr wedi cael rhywfaint o absenoldeb salwch yn ystod y flwyddyn. | | | | | | | |
| 4 | **Pensiynau (Ansawdd Data)** | Er bod yr archwiliad wedi darparu lefel Foddhaol o sicrwydd am ansawdd y data pensiynau diffoddwyr tân, ystyrir y byddai swyddogion y gyflogres yng Nghonwy yn elwa ar rywfaint o hyfforddiant ar bob un o'r tri chynllun pensiwn, sef FPS 1992, NFPS 2007 ac FPS 2015. Mae Pennaeth Cyllid wedi rhoi cyflwyniad hyfforddi i Aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol ac mae wedi cynnig yr hyfforddiant i swyddogion y gyflogres, a byddai hyn yn darparu lefel o sicrwydd bod y cynlluniau'n cael eu rheoli yn unol â'r ddeddfwriaeth.<br><br>Cadarnhawyd bod dechreuwyr newydd yn cael canllawiau ar fuddion FPS 2015, ac maent yn cael eu cofrestru'n awtomatig yn y Cynllun yn unol â'r ddeddfwriaeth gyda'r dewis o 'Optio Allan' drwy roi gwybod yn ysgrifenedig i Bensiynau Dyfed. Fodd bynnag, canfuwyd bod 7 o Ddiffoddwyr Tân RDS a oedd wedi dechrau ar eu dyletswyddau yn Ebrill 2015 heb gael eu cofrestru'n awtomatig yn FPS 2015. Yn unol â'r ddeddfwriaeth, rhaid i'r diffoddwyr tân hyn gael eu cofrestru er mwyn eu galluogi i benderfynu a ydynt am aros i mewn ynteu a ydynt am 'optio allan' o'r Cynllun. Cydnabyddir bod gwybodaeth ar gael ar wefan Pensiynau Dyfed ynglŷn â throsglwyddo hawliau pensiwn blaenorol i'r Cynllun a thalu grantiau marwolaeth. Fodd bynnag, ystyrir y dylai Adnoddau Dynol roi pecyn gwybodaeth am bensiynau i ddechreuwyr newydd, sydd nid yn unig yn rhoi gwybodaeth am yr opsiwn i 'optio allan' ond hefyd am drosglwyddo buddion pensiwn blaenorol (*Ffurflen Datgan Buddion Blaenorol)* a'r ffurflenni enwebu *Mynegi Dymuniad Grant Marwolaeth* a *Phartner Dibynnol ar gyfer Pensiwn Goroeswr.*<br><br>Cadarnhawyd bod safon dda o ran cadw cofnodion. Fodd bynnag, canfuwyd ambell amrywiad rhwng y data pensiwn diffoddwyr tân sydd yn system Workforce a'r data sydd yn ITrent. Mae'r amrywiadau rhwng cofnodion diffoddwyr tân Workforce ac ITrent (cyfeiriadau, dyddiadau geni a rhif Yswiriant Gwladol) wedi cael eu darparu i Adnoddau Dynol a'r Gyflogres yng Nghonwy, a dylid gwneud ymholiadau a diwygio'r Systemau gyda data cyfoes a chywir. Rhaid i gyflogres Conwy sicrhau | **0** | **0** | **4** | **5** | **9** | **9** | **Boddhaol** |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | bod Pensiynau Dyfed yn cael gwybod beth yw'r cofnodion data cywir.<br><br>Caiff cyfraniadau eu didynnu'n gywir o gyflogau diffoddwyr tân gan ddefnyddio'r gyfradd gywir ar gyfer y cyfraniad i'w didynnu o'r enillion pensiynadwy; mae diffoddwyr tân yn cael eu cofrestru yn y cynllun cywir, ac eithrio un Rheolwr Gwylfa RDS, sydd wedi cofrestru yn FPS 2007 ar hyn o bryd ac sydd heb gael ei amddiffyn ac a ddylai fod wedi cael ei drosglwyddo i FPS 2015. Cadarnhawyd bod y diffoddwyr tân sydd â'u hamddiffyniad gohiriedig wedi dod i ben yn 2015/16 wedi cael eu trosglwyddo'n gywir i FPS 2015. Fodd bynnag, i wella'r system, ystyrir y dylid mewnbynnu'r dyddiadau diwedd gohiriedig yr amddiffyniad trosiannol yn iTrent (Manylion Pensiwn wedi'i Gydgrynhoi) er mwyn sicrhau bod pob trosglwyddiad i FPS 2015 yn cael ei wneud yn amserol.<br><br>Cydnabuwyd bod yr adroddiadau pensiwn diwedd blwyddyn a roddwyd gan Gyflogres Conwy i Bensiynau Dyfed yn Ebrill 2015 yn anghyflawn ac wedi hepgor 102 o ddiffoddwyr tân amser cyflawn a 47 o ddiffoddwyr tân RDS. Fe wnaeth archwiliadau gwirio Pensiynau Dyfed ganfod y gwall a chafodd adroddiadau diwygiedig eu cyflwyno i Gonwy ar ddiwedd mis Mai. Mae'n bwysig fod Cyflogres Conwy'n cyflawni archwiliadau cadarn i wirio data yn yr adroddiadau diwedd blwyddyn, cyn cyflwyno'r data i Bensiynau Dyfed, a hynny er mwyn sicrhau eu bod yn gyflawni ac yn gywir. Dylai'r adroddiadau pensiwn diwedd blwyddyn a gyflwynir i Bensiynau Dyfed gael eu trosglwyddo gan ddefnyddio cyfrwng wedi'i amgryptio, megis Meddalwedd E-bost Sicr Egress.<br><br>Cadarnhawyd bod Pensiynau Dyfed yn cyflawni archwiliadau gwirio cadarn ar yr adroddiadau pensiwn diwedd blwyddyn er mwyn sicrhau eu bod yn gyflawn ac yn gywir; ac mae rheolaeth y cynllun yn cael ei archwilio'n rheolaidd gan Wasanaethau Archwilio Mewnol Sir Gaerfyrddin. | | | | | | | |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 3 | **Diogelwch Seiber** | Mae'r archwiliad o Ddiogelwch Seiber a gynlluniwyd ar gyfer 2016/17 yn waith sydd ar y gweill; roedd Uwch Archwilydd Conwy (Technoleg Gwybodaeth) ar gyfnod o absenoldeb salwch tymor hir rhwng Mawrth ac Ebrill 2017, ac mae hyn wedi arwain at oedi o ran cwblhau'r archwiliad. Bydd canlyniadau'r archwiliad o Ddiogelwch Seiber yn cael eu hadrodd i'r cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Archwilio ym mis Medi 2017. | **Amh.** | **Amh.** | **Amh.** | **Amh.** | **Amh.** | **Amh.** | **Amh.** |
| | | | | | | | | **Uchel** | **0** |
| | | | | | | | | **Boddhaol** | **2** |
| | | | | | | | | **Cyfyng-edig** | **0** |
| | | | | | | | | **Dim sicrwydd** | **0** |

**ATODIAD B**

## AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU
## Amserlen Archwiliadau Dilynol 2016/17

| | Disgrifiad | Arch-wilydd | Dyddiad yr Archwiliad | Dyddiad Arfaethedig yr Archwiliad Dilynol | Dyddiad yr Archwiliad Dilynol | Nifer yr Argymhellion | Argym-hellion yn Weddill | Barn Ddiwygiedig yr Archwiliad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **1** | **Y Gyflogres – Diwygiadau i Gyflogau** | KVW | Tach-15 | Ebr-16 | Mai-16 | 3 | 0 | **Sicrwydd Uchel** |
| **2** | **Gwaith Cynnal a Chadw a Mân Waith yn yr Arfaeth** | KVW | Ion-16 | Ion-17 | Ionn-17 | 5 | 0 | **Sicrwydd Uchel** |
| **3** | **Pensiynau – Ansawdd Data** | KVW | Mai-16 | Tach-16 | Chwef-17 | 7 | 1 | **Sicrwydd Uchel** |

ATODIAD C

# Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

## CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY

## Crynodeb o Weithgarwch Archwilio Mewnol 2016/17

| | Adran / Gwasanaeth | Diwrnod-au Arfaeth-edig 2016/17 | Diwrnod-au Gwirion-eddol 2016/17 |
|---|---|---|---|
| **1** | Pensiynau (Ansawdd Data) | **6** | **9** |
| **2** | Rheoli Presenoldeb | **11** | **11.5** |
| **3** | Diogelwch Seiber | **11** | **12.5** |
| **4** | Pensiynau – Cynllun Addasedig y System RDS | **10** | **-** |
| **5** | **Archwiliad Dilynol**:<br>• Y Gyflogres – Newidiadau i Gyflogau<br>• Gwaith Cynnal a Chadw a Mân Waith yn yr Arfaeth<br>• Pensiynau (Ansawdd Data) | **5** | **7** |
| **6** | Cynllunio ac Adrodd ATAGC (gan gynnwys Datganiad Blynyddol o Sicrwydd ac Asesiad o Anghenion) | **5** | **5** |
| **7** | Cronfa wrth gefn | **2** | **0** |
| | **CYFANSWM Y DIWRNODAU** | **50** | **45** |
| | **Diwrnodau a Ddyrannwyd 2016/17** | | **50** |
| | **Diwrnodau Gwirioneddol 2016/17** | | **45** |
| | **Cyfanswm y Diwrnodau sy'n cael eu cario drosodd i 2017/18** | | **5** |

**ATODIAD D**

## Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru
## Cynllun Archwilio Mewnol Blynyddol Drafft ar gyfer 2017/18

| Cyf. Asesiad Anghenion | Adolygiad Archwilio | Sylwadau | Diwrnodau | Amseru Arfaeth-edig |
|---|---|---|---|---|
| **Maes Risg – Risgiau Ariannol a Thwyll** | | | | |
| **28** | Prif Systemau Ariannol – **Credydwyr** | Archebu a thalu am waith, nwyddau a gwasanaethau drwy System P2P Conwy er mwyn sicrhau lefelau priodol o reolaeth fewnol. | **11** | **Ion 18** |
| **25 a 28** | Gorsafoedd Tân RDS (Sir Ddinbych) | Talu cyflogau a lwfansau i ddiffoddwyr tân ar y system ddyletswydd RDS, diogelu asedau a chynnal a chadw gorsafoedd a chofnodion rhestru peiriannau, cofnodi pob taith / llenwi â thanwydd mewn llyfrau cofnodi cerbydau ac archwiliad blynyddol o'r Cronfeydd Lles. | **11** | **Medi 17** |
| **27** | Y Fenter Dwyll Genedlaethol (NFI) | Mae'r Fenter Dwyll Genedlaethol yn ymarferiad drylwyr i 'baru data', sy'n cael ei drefnu gan Swyddfa'r Cabinet mewn partneriaeth â Swyddfa Archwilio Cymru. | **7** | **Awst 17** |
| **Maes Risg – Rheoli Gwybodaeth, a Thechnoleg** | | | | |
| **32** | Diogelwch Seiber (Rhan 2) | Amcan yr adolygiad yw rhoi asesiad annibynnol i'r rheolwyr am effeithiolrwydd gwaith ym maes seiberdroseddu o ran atal, canfod a phrosesau rheoli digwyddiadau, polisïau, gweithdrefnau a gweithgareddau llywodraethu. | **12** | **Chwef 18** |
| **Gwaith Archwilio Arall** | | | | |
| **-** | Cynllunio Archwiliad, Adroddiad Blynyddol a Rheoli | Darparu ar gyfer amser sydd ei angen ar elfen reoli'r contract. | **5** | **Ar fynd** |
| **-** | Dilyn Argymhellion Blaenorol | Dilyn argymhellion a wnaed yn 2016/17 –<br>• Rheoli Presenoldeb<br>• Diogelwch Seiber (Rhan 1) | **7** | **Ar fynd** |
| **-** | Cronfa wrth gefn | Ar gyfer gwaith heb ei gynllunio a gafodd ei ganfod yn ystod y flwyddyn a chysylltu/cyngor yn ôl y gofyn. | **2** | |
| **Cyfanswm y Diwrnodau sydd eu hangen ar gyfer Gwaith Archwilio** | | | **55** | |
| **Cyfanswm y Diwrnodau a Ddyrannwyd 2017/18**<br>**Cyfanswm y Diwrnodau a ddygwyd ymlaen o 2016/17**<br>**Cyfanswm y Diwrnodau sydd ar gael yn 2017/18** | | | **50**<br>**5**<br>**55** | |

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU** **ATODIAD E**

# Asesiad o Anghenion Archwilio Mewnol 2017/18

| | Y Brif System a'r Is-system | Meysydd Posibl i'w Harchwilio | Asesiad Risg | | Diwrnodau 2017/18 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes Risg – Rheolaeth a Llywodraethu Strategol** | | | | | | |
| 1 | Llywodraethu Corfforaethol | Trefniadau Cydymffurfiaeth Gyfreithiol;<br>Gwneud Penderfyniadau a Pholisïau;<br>Cynllun Dirprwyo;<br>Codau Ymddygiad - Swyddogion;<br>Codau Ymddygiad - Aelodau;<br>Hyfforddiant ac Ymwybyddiaeth;<br>Cyflogau Prif Swyddogion;<br>Rheolau Sefydlog a Rheoliadau Ariannol;<br>Gwrth-dwyll a Chwythu'r Chwiban;<br>Polisi Amgylcheddol. | A | | | Mae'r Awdurdod wedi sefydlu Cod Llywodraethu Lleol, sy'n cael ei ddefnyddio fel y safon ar gyfer mesur perfformiad yr Awdurdod mewn hunan-asesiad sy'n cael ei gynnal ar ddiwedd pob blwyddyn i ffurfio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Cadarnhaodd KPMG fod yr Awdurdod yn gwybod y diweddaraf am y ddeddfwriaeth newydd ac mae prosesau a gweithdrefnau priodol wedi cael eu sefydlu.<br>**Archwiliad Llywodraethu Corfforaethol 2013/14 – Sicrwydd Uchel**<br><br>**Archwiliad Dilynol Llywodraethu Corfforaethol – Tachwedd 2015 –**<br>O'r 11 o argymhellion a gafodd eu gwneud yn yr adroddiad archwilio a gyhoeddwyd ym Mai 2014; roedd 4 argymhelliad wedi cael eu gweithredu'n llwyr, ystyrid bod 5 yn mynd rhagddynt, roedd 1 wedi cael ei weithredu'n rhannol ac mae'r argymhelliad ynglŷn â sefydlu Strategaeth Cynaliadwyedd ac Amgylcheddol yn aros. |
| 2 | Cynllunio Gwasanaethau | Cynllunio Corfforaethol;<br>Cynlluniau Integredig Rheoli Risg;<br>Cynlluniau Perfformiad Gwerth Gorau;<br>Cynlluniau Uned Gwasanaeth;<br>Cynllun Gwella Asesiad Perfformiad Cynhwysfawr; | B | | | **Adroddiad Gwella Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru 2014/15**. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Moderneiddio;<br>Ymgynghori;<br>Asesu Risg;<br>Sicrhau Adnoddau a Chymeradwyaeth Ariannol;<br>Uned Cydlynu Gwelliannau | | | | |
| 3 | Rheoli Perfformiad | Rolau a Chyfrifoldebau;<br>Gosod Targedau;<br>Casglu Data;<br>Rheoli Ansawdd Data;<br>Adrodd;<br>Defnyddio Gwybodaeth Reoli i gefnogi Gwelliannau i Wasanaethau<br>. | A | | | **Adroddiad Gwella Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru 2015/16**.<br>‘Archwiliad Asesiad o Berfformiad’<br><br>Archwiliad ‘Cynllun Gwella’ Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru. |
| 4 | Rheoli Risg, Cynllunio rhag Argyfyngau, a Pharhad Busnes | Polisi a Fframwaith;<br>Rolau a Chyfrifoldebau;<br>Hyfforddiant;<br>Cofrestr Risgiau Corfforaethol;<br>Integreiddio gyda Phrosesau Rheoli;<br>Mecanweithiau Monitro a Sicrwydd;<br>Adrodd;<br>Cynllunio rhag Argyfyngau;<br>Asesu Risg;<br>Parhad Busnes;<br>Chwilio ac Achub mewn Trefi;<br>Cydymffurfio â’r Ddeddf Argyfyngau Sifil 2004;<br>Gweithio ag Asiantaethau Partneriaethol a Busnesau Lleol;<br>Fforymau Cydnerth;<br>Cyfleusterau Cynadleddau Symudol; | A | | | **Adroddiad Gwella Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru 2014/15**.<br>**Defnyddio Adnoddau** – *‘Mae’r Awdurdod wedi sicrhau arbedion effeithlonrwydd tra’n cynnal lefelau diogel o wasanaeth, ond mae’r gostyngiad yn y gallu Corfforaethol yn debygol o arafu newid yn y dyfodol.*<br>*’*<br>Roedd yr Archwiliad Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd yn 2013/14 yn cynnwys asesiad ac argymhellion yn ymwneud â rheoli risg a’r Gofrestr Risgiau Corfforaethol – **Sicrwydd Uchel** |
| 5 | Cydraddoldeb ac Amrywiaeth | Cydymffurfio â’r Ddeddfwriaeth;<br>Polisïau, Arferion a Gweithdrefnau;<br>Cyfrifoldebau;<br>Ymwybyddiaeth a Hyfforddiant;<br>Rheoli Perfformiad. | C | | | **Adroddiad Gwella Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru 2015/16**.<br>Adolygiad Comisiynydd y Gymraeg o Gynllun Iaith Gymraeg yr Awdurdod. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes Risg – Darparu Gwasanaethau'r Ochr Weithredol** | | | | | | |
| 6 | Gweithrediadau'r Ystafell Reoli<br><br>Ymateb i Ddigwyddiadau, a'u Rheoli | Cydymffurfio â Lliniaru Risg Allweddol;<br>Gweithdrefnau Anfon Allan;<br>Blaenoriaethu Ymatebion i Ddigwyddiadau;<br>Monitro a Mesur Perfformiad;<br>Staffio ac Adnoddau;<br>Hyfforddiant;<br>System Rheoli Digwyddiadau. | C | | | |
| 7 | Gweithdrefnau Galwadau Ffug | Polisi a Gweithdrefn;<br>Cofnodi a Monitro;<br>Addysg;<br>Cyfathrebu. | C | | | |
| 8 | Diogelwch Tân Cymunedol a Thasglu Llosgi Bwriadol | Cyfathrebu;<br>Addysg;<br>Sicrhau Adnoddau<br>Proffilio Risgiau;<br>Gweithio â Busnesau, Awdurdodau Addysg Lleol, Ymddiriedolaeth Plant a Phobl Ifanc, Tîm Troseddwyr Ifanc, Gwasanaethau Tân ac Achub eraill, prosiect taenellwyr dŵr, Larymau Mwg, Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref, Digwyddiadau Diogelwch Cymunedol, Mynd at Gerbydau. | C | | | **Adroddiad Gwella Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru 2015/16** – 'Adolygiad o'r trefniadau Diogelwch Tân' – Roedd yr adroddiad manwl yn cynnwys dau gynnig ar gyfer gwella i'w gweithredu ar lefel genedlaethol.<br><br>Cafodd adolygiad o weithio mewn partneriaeth ym maes Diogelwch Tân Cymunedol ei gynnal yn ystod 2010/11. Digonol oedd Barn yr Archwiliad. Cafodd archwiliad dilynol ei gynnal yng Ngorffennaf 2012 – barn ddiwygiedig yr archwiliad - Boddhaol.<br><br>**Cafodd archwiliad o Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref ei gynnal yn 2014/15 – Barn yr Archwiliad - Boddhaol**<br><br>Archwiliad Dilynol ar Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref (Tachwedd 15) Barn Ddiwygiedig – Sicrwydd Uchel: Cafodd 10 o argymhellion eu gwneud yn yr adroddiad archwilio a gyhoeddwyd yn Ionawr 2015; mae 5 o argymhellion wedi |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | cael eu gweithredu'n llwyr, mae 4 wedi cael eu gweithredu'n rhannol, ac mae'r argymhelliad ynglŷn â chyflwyno'r Adroddiad Blynyddol i'r Grŵp Gweithredol i ddiben craffu a chymeradwyo yn aros.<br><br>**Gorsaf Dân Gymunedol y Rhyl 2014/15 – Barn yr Archwiliad – Boddhaol**<br><br>Archwiliad Dilynol Gorsaf Dân Gymunedol y Rhyl (Tachwedd 15). O'r 11 o argymhellion a wnaed yn yr adroddiad archwilio a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2015; mae 8 o argymhellion wedi cael eu gweithredu'n llwyr, mae 1 yn cael ei ystyried yn waith sy'n mynd rhagddo, mae 1 wedi cael ei weithredu'n rhannol ac mae'r argymhelliad ynglŷn â llunio Adroddiad Blynyddol yn aros. |
| 9 | Archwiliadau ac Ymchwiliadau | Cydymffurfio â'r Polisi;<br>Rhaglen Archwiliadau;<br>Asesiadau ar-lein;<br>Cydymffurfio â rheoli adeiladau;<br>Rhoi trwyddedau/tystysgrifau;<br>Incwm o archwiliadau a Thrwyddedau. | C | | | Incwm o archwiliadau a thrwyddedau yn rhan o'r archwiliad o Incwm a gynhaliwyd yn 2013/14. |
| 10 | Gweithio mewn Partneriaeth | Llywodraethu Partneriaethau;<br>Asesu Risg;<br>Lleihau Trosedd ac Anhrefn;<br>Partneriaethau Strategol Lleol;<br>Cytundebau Ardal Leol;<br>Awdurdodau Addysg Lleol ac eraill. | B | | | Cynhaliwyd adolygiad yn 2010/11 o Weithio mewn Partneriaeth yr adran Diogelwch Tân Cymunedol, gan werthuso'r trefniadau llywodraethu a digonolrwydd y rheolaethau mewnol a ymgorfforwyd ymhob system, gyda'r bwriad o ganfod unrhyw wendidau o ran rheoli, a meysydd risg posib.<br>**Digonol oedd Barn yr Archwiliad.**<br><br>Cafodd archwiliad dilynol ei gynnal yng Ngorffennaf 2012 – barn ddiwygiedig yr archwiliad - Boddhaol. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | **Cynhaliwyd archwiliad o Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref yn 2014/15 – Barn yr Archwiliad – Boddhaol**<br><br>**Archwiliad dilynol Tachwedd 2015 – Barn Ddiwygiedig yr Archwiliad – Sicrwydd Uchel** |
| **Maes Risg – Rheoli Pobl** | | | | | | |
| 11 | Iechyd a Diogelwch | Cydymffurfio â'r Ddeddfwriaeth;<br>Polisi, Arferion, Gweithdrefnau;<br>Cyfrifoldebau<br>Ymwybyddiaeth a Hyfforddiant<br>Rheoli Perfformiad;<br>Monitro ac Adrodd ynghylch Digwyddiadau;<br>Yswiriant (Atebolrwydd Cyhoeddus a Chyflogwyr) | B | | | |
| 12 | Rheoli Presenoldeb (lifrai a di-lifrai) | Cydymffurfio â'r Polisi;<br>Adrodd a chofnodi absenoldeb;<br>Gwybodaeth am Berfformiad. | C | | | Cynhaliwyd Ymchwiliad Arbennig yn 2011/12 o Amser o'r Gwaith *In Lieu* a materion Adnoddau Dynol eraill.<br><br>Cyhoeddi adroddiad archwilio **Rheoli Presenoldeb** Rhagfyr 2016 – **Sicrwydd Boddhaol** (4 argymhelliad) |
| 13 | Hyfforddi a Datblygu Staff (lifrai a di-lifrai) | Gweithredu'r System Integredig Datblygiad Personol (IPDS);<br>Asesu Sgiliau;<br>Portffolios Datblygu;<br>Adolygiadau o Ddatblygiad Personol;<br>Arfarniad o Berfformiad;<br>Cyfleusterau Hyfforddi;<br>Cynlluniau Hyfforddi ar y Cyd;<br>Cynllunio ar gyfer Olyniaeth;<br>Datblygu Arweinyddiaeth (Gwella'r Gwasanaeth);<br>Hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar Werth. | C | | | Gwaith perfformiad Swyddfa Archwilio Cymru wedi ei gynnal yn 2011/12 – Astudiaeth Thematig – AD a chynllunio'r gweithlu. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 14 | Recriwtio a Dethol | Cydymffurfio â Pholisïau a Gweithdrefnau Recriwtio;<br>Cydraddoldeb a chynhwysiant;<br>Gwiriadau cyn cyflogi;<br>Rheoli Perfformiad. | C | | | Gwiriadau cyn cyflogi, e.e. geirda, gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn rhan o'r **archwiliad o Ddechreuwyr ac Ymadawyr 2014/15 – Barn yr Archwiliad oedd Boddhaol.**<br><br>Archwiliad dilynol 2015/16 – Sicrwydd Uchel |
| **Maes Risg – Rheoli Prosiectau** | | | | | | |
| 15 | Rheoli Prosiectau | Uned Arbennig ar gyfer Prosiectau;<br>Rolau a Chyfrifoldebau;<br>Blaenoriaethu Prosiectau;<br>Asesu Risg;<br>Cydymffurfio â Prince 2;<br>Hyfforddiant mewn Rheoli Prosiectau;<br>Monitro a Chyflwyno;<br>Cyllido | B | | | Cynigiodd Pennaeth Adran Rheoli Cyfleusterau a Logisteg Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru y dylai Cyfrifon Terfynol Gorsaf Dân Gymunedol y Rhyl gael eu hasesu i weld a oes anghysonderau. **Fel rhan o gynllun archwilio 2011/12, fe wnaeth Gwasanaeth Archwilio Mewnol Conwy adolygiad o'r contract hwn. Barn yr Archwiliad – Boddhaol** |
| **Maes Risg – Risgiau Ariannol a Thwyll** | | | | | | |
| 16 | Cynllunio Ariannol a Rheoli'r Gyllideb | Trefniadau Cyllido<br>Dyrannu Adnoddau<br>Cynllunio Ariannol yn y Tymor Canolig<br>Gosod a chymeradwyo'r gyllideb<br>Dirprwyaethau ariannol<br>Monitro cyllidebau<br>Rhagweld/Adrodd Ariannol | A | | | **Adroddiad Gwella Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru 2015/16.** 'Asesiad Cadernid Ariannol' – Canfu'r adolygiad bod trefniadau'r Awdurdod ar gyfer sicrhau cadernid ariannol yn iawn. |
| 17 | Y Gyflogres | Dechreuwyr, Ymadawyr, Newidiadau;<br>Rheoli Taliadau;<br>Ardystio;<br>Cywirdeb;<br>Monitro;<br>Adrodd. | A | | **11** | Archwiliad y Gyflogres – CAATS 2008/09. Da oedd Barn yr Archwiliad<br>Tâl diffoddwyr tân rhan amser - Adolygwyd gweithdrefnau FIN 8 electronig yn 2011/12– Barn yr Archwiliad - Boddhaol.<br><br>**Newidiadau'r Gyflogres i'r archwiliad o Gyflogau 2015/16 – Boddhaol oedd Barn yr Archwiliad;** Roedd yr archwiliad dilynol a gynhaliwyd ym Mai 2016 wedi |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | diwygio barn yr archwiliad i **Sicrwydd Uchel.**<br><br>**Archwiliad o Ddechreuwyd ac Ymadawyr y Gyflogres a gynhaliwyd yn 2014/15 – Barn yr Archwiliad - Boddhaol.**<br>Archwiliad Dilynol Dechreuwyr ac Ymadawyr y Gyflogres – Ebrill 2015. O blith y 7 o argymhellion a wnaed yn yr adroddiad archwilio a gyhoeddwyd yng Ngorffennaf 2014; mae pob un o'r 7 o argymhellion wedi cael eu gweithredu. |
| 18 | Lwfansau Gweithwyr a'r Aelodau | Hawliadau, awdurdodi a phrosesu mewn perthynas â:<br>Theithio a Chynhaliaeth;<br>Gwobrau am Wasanaeth Hir;<br>Lwfansau Preswyl; | D | | | Adolygiad Archwiliad Mewnol o Lwfansau'r Aelodau 2005/06.<br>Barn yr archwiliad oedd Da.<br><br>Cynhwyswyd Lwfansau Gweithwyr yn yr Archwiliad o'r Gyflogres - Newidiadau i Gyflogau 2008/09. |
| 19 | Pensiynau | Hysbysu'r Awdurdod sy'n Gweinyddu;<br>Gwirio Newidiadau;<br>Ffioedd heb eu Hariannu. | C | | | **Adroddiad Gwella Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru 2014/15**.<br><br>Adolygiad Archwilio Mewnol – **Pensiynau (Ansawdd Data)** - Mai 2016<br>Sicrwydd Boddhaol<br>(9 o Argymhellion)<br><br>Archwiliad Dilynol Chwefror 2017 – **Sicrwydd Uchel** |
| 20 | Caffael a Phrynu | Strategaeth Gaffael;<br>Effeithlonrwydd a Gwerth am Arian;<br>E Gaffael;<br>Cydymffurfio â Rheoliadau Ariannol a Rheoliadau Sefydlog Cytundebau;<br>Gweithdrefnau Prynu a Thalu;<br>Gwariant ar Gardiau Credyd;<br>Gwariant ag Arian Parod. | B | | | **Adroddiad Gwella Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru 2014/15**.<br><br>**Cynhaliwyd Archwiliad o Gredydwyr 2012/13 – Sicrwydd Uchel.**<br><br>**Y Fenter Dwyll Genedlaethol yn GTAGC – Gwaith Cynnal a Chadw a** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | **Mân Waith yn yr Arfaeth – Cynhaliwyd Archwiliad 2015/16 – Sicrwydd Cyfyngedig**<br>Archwiliad Dilynol Rhagfyr 16 – barn ddiwygiedig – **Sicrwydd Uchel** |
| 21 | Strategaeth Gyfalaf a Chyfrifyddu | Gosod/Cymeradwyo'r Strategaeth a'r Rhaglen;<br>Monitro;<br>Cyfalafu/ Awdurdodi Gwariant;<br>Benthyca Darbodus;<br>Cyfrifyddu a Rheoli Asedau Sefydlog;<br>Cofrestr Asedau Sefydlog;<br>Prisio/Dibrisio Asedau;<br>Yswiriant;<br>Cynlluniau Mentrau Cyllid Preifat (PFI) yn cynnwys TAW. | A | | | **Adroddiad Gwella Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru 2015/16**. |
| 22 | Rheoli'r Fflyd, a Thanwydd | Caffael/Prydlesu;<br>Rheolaeth ac Unioniad Strategol;<br>Cynnal a Chadw ac Archwiliadau;<br>Materion sy'n ymwneud â Thanwydd a'r Defnydd ohono;<br>Gwaredu;<br>Yswiriant. | C | | | **Archwiliad o Reoli Tanwydd wedi ei gynnal yn 2014/15. Barn yr Archwiliad oedd Boddhaol.**<br><br>**Archwiliad Dilynol ar Reoli Tanwydd – Hydref 2015**. O blith y 7 o argymhellion a wnaed yn yr adroddiad archwilio a gyhoeddwyd yn Nhachwedd 2014; mae 1 argymhelliad wedi cael ei weithredu, mae 1 wedi cael ei weithredu'n rhannol ac mae 5 yn destun gwaith sy'n mynd ymlaen. |
| 23 | Casglu a Bancio Incwm | Derbyn Taliadau;<br>Incwm Grant;<br>Incwm Praesept;<br>Gweithdrefnau Casglu a Chyfrifyddu;<br>Incwm Amrywiol;<br>Cydymffurfio â Pholisi Codi Tâl;<br>Incwm o Dystysgrifau Archwilio;<br>Sicrwydd arian a Bancio;<br>Yswiriant. | C | | | **Cynhaliwyd archwiliad o incwm yn 2013/14 –**<br>**Sicrwydd Uchel.** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 24 | Storfeydd | Rheoli Stoc, Gwerth a Chofnodi;<br>Prynu a Derbyn;<br>Diogelwch yn y Storfeydd;<br>Diogelwch y System TG;<br>Gweithdrefnau Rhannu allan a Dychwelyd;<br>Yswiriant. | D | | | **Cynhaliwyd archwiliad o'r storfeydd yn 2012/13 –<br>Sicrwydd Uchel** |
| 25 | Diogelwch yr Offer a'r Stocrestr | Lefel y Stocrestr;<br>Cofnodi ac Adolygu;<br>Marcio Offer;<br>Llogi Offer;<br>Diogelwch Lleoliadau;<br>Yswiriant | C | | | **Adolygiad Archwilio Diogelwch yr Offer a'r Stocrestr 2007/08.**<br>Wedi ei gynnwys yn yr archwiliad o Orsafoedd Rhan Amser 2009/10-2013/14. |
| 26 | Costau Cyfleustodau a Chytundebau Gwasanaeth | Tendro a Gwerth am Arian;<br>Monitro Costau Ynni;<br>Cydymffurfio â'r Rheoliadau Ariannol. | C | | | |
| 27 | Y Fenter Dwyll Genedlaethol | Lawrlwythiad y Gyflogres;<br>Lawrlwythiad y Credydwyr;<br>Ymchwilio i Allbwn yr Ymarferiad Paru Cenedlaethol. | B | | **7** | Bob 2 flynedd, paru data'r gyflogres a data credydwyr gan y Fenter Dwyll Genedlaethol.<br><br>**Cynhaliwyd gwaith y Fenter Dwyll yn 2015/16 –<br>Sicrwydd Uchel** |
| 28 | Y Prif Systemau Ariannol<br><br>• Y Gyflogres<br>• Credydwyr<br>• Dyledwyr<br>• Rheoli'r Trysorlys<br>• System Gyfrifyddu<br>• Gwrth-dwyll | Cyfanrwydd, Cywirdeb a Dilysrwydd Trafodion;<br>Cyfrifyddu Cywir;<br>Monitro ac Adrodd;<br>Effeithlonrwydd;<br>Gwerth am Arian;<br>Dogfennu Systemau;<br>Cydymffurfio â Rheoliadau a Gweithdrefnau Ariannol. | A | | **11** | Yn dod dan yr Archwiliad o Systemau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, yn flynyddol.<br><br>**Cynhaliwyd archwiliad o gredydwyr yn 2012/13 – Sicrwydd Uchel** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes Risg – Enw Da a Hyder y Cyhoedd** | | | | | | |
| 29 | Y Drefn Gwyno | Polisi, Gweithdrefn ac Arferion Da;<br>Cydymffurfio;<br>Monitro ac Adrodd;<br>Gwella Gwasanaethau;<br>Iawndaliadau. | C | | | |
| 30 | Cyfathrebu Corfforaethol | Y Strategaeth Gyfathrebu;<br>Marchnata a'r Cyfryngau;<br>Cyfrifoldebau;<br>Monitro Digwyddiadau. | C | | | |
| **Maes Risg – Rheoli a Thechnoleg Gwybodaeth** | | | | | | |
| 31 | Strategaeth a Rheolaeth TG | Datblygu Strategaeth a Chael Adnoddau;<br>Fframwaith Polisïau a Rheolaeth;<br>Rheoli'r Rhyngrwyd ac E-bost;<br>Cyfrifoldebau;<br>Caffael a Datblygu TGCh;<br>Yswiriant. | C | | | Roedd yr archwiliad yn asesu maint y rheolaeth dros y prif risgiau yn ymwneud â chael gwybodaeth oddi ar systemau TG y sefydliad, ac yn benodol bydd yn adolygu'r meysydd canlynol ar gyfer cydymffurfio â safonau diogelu gwybodaeth ISO 27000.<br>• Rheoli mynediad defnyddwyr<br>• Rheoli mynediad i gyfrifiaduron<br>• Rheoli mynediad at gymwysiadau<br>• Mynediad a defnydd o systemau monitro<br>• Rheoli mynediad at wybodaeth bersonol |
| 32 | Rheoli Rhwydweithiau | Diogelwch a Rheolaeth;<br>Diogelwch Corfforol a Rhesymegol;<br>Systemau Wrth Gefn ac Adfer wedi Trychineb;<br>Perfformiad Caledwedd, Cyfryngau, Topoleg:<br>Diogelwch a Rheolaeth:<br>Cefnogaeth i Reolwyr:<br>Meddalwedd Cyfathrebu;<br>Cysylltiadau Di-wifr. | C | | **12** | Cynhaliwyd yr archwiliad o Reoli Rhwydwaith yn 2008/09. **Barn yr Archwiliad - Boddhaol**<br><br>Archwiliad o Ddiogelwch TG wedi ei gynnal yn 2010/11. **Barn yr Archwiliad – Boddhaol**<br><br>**Diogelwch Seiber (Rhan 1)** cynhaliwyd archwiliad 2016/17.<br>**Diogelwch Seiber (Rhan 2)** trefnwyd archwiliad ar gyfer 2017/18. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 33 | Telegyfathrebu (ac eithrio'r ystafell reoli) | Diogelwch a Rheoli;<br>Diogelwch Corfforol a Rhesymegol;<br>Systemau Wrth Gefn ac Adfer wedi Trychineb. | C | | | |
| 34 | E Lywodraeth | Strategaeth;<br>Cael adnoddau;<br>Mentrau;<br>Perfformiad. | C | | | **Archwiliad E Lywodraeth yn 2009/10 -** Nod yr archwiliad oedd pennu i ba raddau y mae rheolaeth am risgiau mewn perthynas â'r canlynol:<br>Gweledigaeth e-lywodraeth<br>Cydweithio, e.e. rhwng awdurdodau<br>Gofynion y cwsmer<br>Cyllido<br>Datrysiadau technegol<br>Capasiti – o ran pobl a sgiliau<br>Prosesau busnes<br>Ffocws ar reolaethau strategol am y risgiau allweddol sy'n bygwth y weledigaeth/rhaglen e-Lywodraeth.<br><br>**Barn yr Archwiliad – Da** |
| 35 | TG yr Ystafell Reoli | Ffonau Symudol;<br>System Radio;<br>System Galw allan;<br>Diogelwch Corfforol;<br>System wrth gefn a chynllun adfer mewn argyfwng;<br>Monitro Perfformiad. | C | | | |
| 36 | Diogelu Data / Rhyddid Gwybodaeth | Cydymffurfio â'r Ddeddfwriaeth;<br>Ymwybyddiaeth ymhlith y Staff;<br>Ceisiadau am Wybodaeth;<br>Monitro a Pherfformiad. | C | | | **Archwiliad o Ddiogelu Data 2009/10 -** i bennu a yw gweithgareddau sy'n golygu prosesu data personol yn cyd-fynd â pholisïau a gweithdrefnau diogelu data yr Awdurdod, a ph'un a yw'r dulliau prosesu hyn yn cwrdd â gofynion y Ddeddf Diogelu Data 1998 ai peidio. Barn yr archwiliad – |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | Boddhaol.<br><br>Archwiliad Dilynol yn Nhachwedd 2010 – Sicrwydd Uchel<br><br>**Archwiliad Rhyddid Gwybodaeth yn 2010/11** - i sicrhau cydymffurfiad â gofynion statudol Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. **Barn yr Archwiliad – Boddhaol**<br><br>Archwiliad Dilyn ym Medi 2011 – Sicrwydd Uchel |
| **Maes Risg – Systemau Eraill** | | | | | | |
| 37 | Gweithrediad y Ffreutur | Cytundeb a Monitro;<br>Hylendid Bwyd a Glanweithdra;<br>Hyfforddi Staff;<br>Casglu Incwm a Bancio;<br>Gweithdrefnau Archebu. | C | | | |
| 38 | Cronfeydd Lles | Gweithdrefnau Ysgrifenedig;<br>Cofnodion y Cronfeydd Lles;<br>Cysoniad Banc;<br>Archwiliadau Annibynnol. | C | | | Cynhaliwyd archwiliad o'r Cronfeydd Lles yn 2008/09. Anfoddhaol oedd Barn yr Archwiliad.<br>Cynhaliwyd archwiliad dilynol yn 2009/10 – **Barn yr archwiliad – Digonol.** |
| **Maes Risg – Gwaith arall yn ymwneud ag Archwilio** | | | | | | |
| | Cynllunio gwaith archwilio, Adroddiad Blynyddol a Rheolaeth | | | | **5** | |
| | Olrhain Argymhellion Blaenorol | | | | **7** | |
| | Cronfa wrth gefn | | | | **2** | |
| | | | **Cyfanswm cwmpas 2017/18** | | **55** | |

**Asesiadau Risg - Mae'r Asesiad o Anghenion yn dogfennu pob prosiect, ac mae'n dyrannu Graddiad Risg mewn perthynas â phob maes archwiliadwy, yn seiliedig ar lenwi matrics risg sy'n cael ei gadw ar System Cynllunio Archwiliadau a'r Amgylchedd Reoli (APACE) yr Adain Archwilio Mewnol. Yr Asesiad Risg sy'n pennu graddiad y risg ac amledd pob archwiliad wedi hynny. Pan nad yw rhyw faes wedi cael ei adolygu'n ddiweddar gan yr Adain Archwilio Mewnol na Swyddfa Archwilio Cymru, rhoddir Graddiad 'C' wrtho hyd oni fydd archwiliad wedi ei gynnal, a bod modd gwneud barn wybodus yn ei gylch. Dyma'r graddiadau risg cyfredol:**

- **Graddiad Risg A - Risg Uchel sy'n gofyn am Adolygiad Blynyddol**
- **Graddiad Risg B - Risg Uchel sy'n gofyn am adolygiad bob 2 flynedd**
- **Graddiad Risg C - Risg Canolig sy'n gofyn am adolygiad bob 3 blynedd**
- **Graddiad Risg D - Risg Isel sy'n gofyn am adolygiad bob 4 blynedd**